

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i:</b>	<b>Pwyllgor Gwaith</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>26.10.2020</b>
<b>Pwnc / Testun:</b>	<b>Strategaeth Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar</b>
<b>Deilydd(ion) Portffolio:</b>	<b>Pawb</b>
<b>Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:</b>	<b>Fôn Roberts / Ned Michael</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b> <b>Tel:</b> <b>E-bost:</b>	<b>R.Arwel Jones – Prif Swyddog Datblygu – Gwas Tai</b> <b>(01248) 752064</b> <b>RArwel.Jones@ynysmon.gov.uk</b>
<b>Aelodau Lleol:</b>	<b>Ddim yn berthnasol</b>

<b>A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau</b>
<p>Cymeradwyo:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Y Strategaeth Gorfforaethol ar Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar a'r papurau amgaëedig, a'r Cynllun Gweithredu.</li> </ul> <p><b>1.0 Cyflwyniad</b></p> <p>1.1 Mae Strategaeth Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar Cyngor Sir Ynys Môn (gweler Atodiad 1) yn nodi gweledigaeth, uchelgais a datblygiad corfforaethol y Cyngor mewn perthynas â chomisiynu a darparu gwasanaeth a gweithgaredd yn uniongyrchol yn y maes hwn.</p> <p>1.2 Dan arweiniad Llywodraeth Cymru, mae Awdurdodau Lleol ledled Cymru wedi gweithredu'n rhagweithiol yn ein gwasanaethau cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau a datblygu asedau a gwytnwch pobl a chymunedau, trwy atal ac ymyrraeth gynnar. Mae'n gweld gwerth yng nghydweithrediad y rhai sy'n cymryd rhan - pobl a chymunedau, sefydliadau'r Trydydd Sector, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a busnesau. Wrth atal ac ymyrraeth gynnar rhoddir cydnabyddiaeth i bwysigrwydd dylunio gwasanaethau gyda'r bobl y maent yno i'w gwasanaethu, ac ar eu cyfer, ac i ychwanegu at y cryfderau yn ein cymunedau.</p> <p>1.3 Mae diffinio gweithredu ataliol fel 'mabwysiadu dulliau sy'n ychwanegu at ymwneud defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau i sicrhau gwell canlyniadau a chyfrannu'n sylweddol at wneud y defnydd gorau posibl o arian ac asedau eraill'. Mae gweithredu fel hyn yn helpu i ddileu dyblygu a gwastraff, gan leihau'n sylweddol alwadau o'r system yn y tymor hwy.</p>

- 1.4 Ymhlith prif fuddion gweithredu'n ataliol mae adnabod a hyrwyddo ffactorau gwarchod a all atal canlyniadau negyddol yn gynnar, cefnogi pobl i wneud y gorau o'u potensial, a mwynhau gwell ansawdd bywyd. Mae gweithredu'n ataliol yn aml yn 'galluogi': arfogi unigolion a chymunedau gyda'r hyn sydd ei angen i lwyddo, yn hytrach na gorfodi ymyraethau arnynt. Mae gweithredu seiliedig ar asedau wedi hen ennill ei blwyf yn ardal Seiriol ac maent wedi llwyddo i feithrin hunanddibyniaeth a gwytnwch yn hytrach na dibyniaeth.
- 1.5 Mewn cymhariaeth, ystyrir 'ymyraethau cynnar' yn weithredoedd a all roi sylw i achosion sylfaenol problemau cymdeithasol, sydd yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd ac wedi'u gwreiddio'n ddwfn. Fel hyn, byddir yn atal problemau cysylltiedig, lluosog rhag codi, gan helpu i atal cylchoedd amddifadedd sydd wedi hen wreiddio, a lleihau anghydraddoldeb. At ei gilydd, mae'n haws mynd i'r afael â phroblemau'n gynnar, cyn iddynt wreiddio'n ddwfn, a thrwy roi sylw iddynt, gallwn greu'r amodau ar gyfer cymdeithas fwy cyfartal fydd yn cael effaith gadarnhaol ar draws ystod o ganlyniadau. Wrth weithredu yn y ddwy ffordd hyn hefyd, gellir sicrhau arbedion cost sylweddol i'r sector cyhoeddus trwy leihau'r angen am sawl ymyraeth ddrud ac aciwt yn y tymor hir ac, felly, alluogi pobl a chymunedau i wireddu eu potensial, a thrwy hynny leihau dibyniaeth ar y wladwriaeth a Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyffredinol.
- 1.6 Dengys adroddiad a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Cymorth Cymru (y corff ymbarél cynrychioliadol ar gyfer digartrefedd, tai a chefnogaeth yng Nghymru) ac a gyhoeddwyd ar 24 Medi 2020, bod gwasanaethau cymorth tai yn sicrhau arbedion blynyddol gros o £300 miliwn i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru trwy atal digartrefedd, llacio pwysau ar iechyd a gofal cymdeithasol a lleihau'r ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.
- 1.7 Dan arweiniad Prifysgol Metropolitan Caerdydd, gydag Alma Economics yn cynnal gwaith modelu economaidd arbenigol, mae'r ymchwil hon yn tystio i arbediad net o £1.40 am bob £1 a fuddsoddir gan Lywodraeth Cymru yn y Grant Cymorth Tai. Mae'r llif cyllido hanfodol hwn yn cynorthwyo dros 57,000 o bobl bob blwyddyn, **(y mae oddeutu 950 ohonynt yn cael cymorth yn Ynys Môn mewn blwyddyn ariannol lawn)** gan gynnwys pobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, pobl ifanc â phrofiad gofal, pobl hŷn, pobl sy'n ffoi rhag trais a chamdriniaeth, pobl ag anableddau dysgu, a phobl ag iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau.
- 1.8 Ochr yn ochr â dangos budd ariannol clir, mae'r gwaith ymchwil hwn yn wahanol i astudiaethau blaenorol trwy dystio i effaith gymdeithasol gwasanaethau ar fywydau pobl. Yn sgil dros gant o gyfweiliadau â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth tai yng Nghymru, dengys y canlyniadau effaith gadarnhaol barhaus ar iechyd, lles, hyder ac optimistiaeth pobl ar gyfer y dyfodol.
- 1.9 Ymhlith y prif ganlyniadau mae:

- Mae gwasanaethau Cymorth Tai a digartrefedd yn sicrhau arbedion blynyddol gros o £300m i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- Mae hyn yn cynnwys arbedion o £139m i'r gwasanaethau iechyd, arbedion o £121m i ofal cymdeithasol a £48m i'r system cyfiawnder troseddol.
- Mae hyn yn cyfateb i arbediad net o £1.40 am bob £ 1 a fuddsoddir yng Ngrang Cymorth Tai Llywodraeth Cymru
- Nododd 80% o'r ymatebwyr effaith gadarnhaol barhaus mewn perthynas â theimlo mewn rheolaeth o'u bywyd
- Nododd 79% o'r ymatebwyr effaith gadarnhaol barhaus mewn perthynas â'u boddhad â'u bywyd
- Nododd 70% o'r ymatebwyr effaith gadarnhaol barhaus ynghylch eu hoptimistiaeth ar gyfer y dyfodol
- Nododd 67% o'r ymatebwyr effaith gadarnhaol barhaus ar eu hiechyd

## **2.0 Llywodraethiant ac Atebolrwydd**

**2.1** Rheolwyr Rhaglen / Swyddogion Arweiniol a'u timau fydd yn parhau i weithredu'r Rhaglenni Atal / Ymyrryd yn Gynnar Penodol a restrir uchod, o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, bydd gofyn i bob Rheolwr Rhaglen / Swyddog Arweiniol adrodd i'r Bwrdd bob chwarter o leiaf mewn perthynas â:

- Gwariant (gorwario / tanwario);
- Cynnydd yn erbyn targedau allweddol, fel y dangosir yn y Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar Atal / Ymyrryd yn gynnar;
- Mesurau ar sail canlyniadau, lle bo hynny'n berthnasol;
- Caffael;
- Materion sy'n peri pryder / Arfer Da.

**2.2** Yn dilyn hynny, bydd y Bwrdd Corfforaethol ar Atal / Ymyrryd yn Gynnar, trwy ei Gadeirydd (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) yn adrodd i'r Uwch-dîm Rheoli ar bob penderfyniad strategol allweddol a bydd yn cyflwyno adroddiadau cynnydd, o leiaf ddwywaith y flwyddyn, yn unol â'r trefniadau uchod.

**2.3** Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, bydd y trefnwyr llywodraethu ar gyfer Grant Cymorth Tai yn aros yr un fath, gydag atebolrwydd cychwynnol trwy Grŵp Cynllunio Lleol Ynys Môn, sy'n cynnwys uwch-reolwyr a rheolwyr canol sy'n cynrychioli'r Gwasanaethau Tai, Oedolion a Phlant, Darparwyr Gwasanaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru. Mae'n ofynnol cynnwys Iechyd a Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru, yn unol â thelerau ac amodau'r Rhaglen a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

**2.4** Fodd bynnag, bydd Prif Swyddog Datblygu'r Grant Cymorth Tai a'r Rheolwr Gwasanaeth Polisi, Comisiynu a Strategaeth Tai, yn rhoi diweddariad chwarterol i'r Bwrdd Corfforaethol ar Atal / Ymyrryd yn Gynnar, mewn perthynas â'r materion a restrir uchod.

### **3.0 Gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar Atal ac Ymyrryd yn Gynnar.**

#### **3.1 Gyrwyr Allweddol**

3.2 Bydd ein Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar Atal ac Ymyrraeth Gynnar yn canolbwyntio ar ddull gweithredu a ddefnyddir ar draws yr Awdurdod fel yr amlinellir yn y Cynllun Gweithredu, ac a weithredir ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol y Cngor wrth i ni weithio'n barhaus tuag at gyflawni ein tri nod corfforaethol craidd:

- Creu'r amodau i bawb gyflawni eu potensial tymor hir
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, gan amddiffyn ein hamgylchedd cenedlaethol yr un pryd

3.3 Argymhellir y dylid defnyddio'r prif yrwyr i hyrwyddo cymdeithas fwy cyfartal a theg yn Ynys Môn, a thrwy hynny fynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy fabwysiadu a hyrwyddo dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar fydd yn seiliedig ar y penawdau allweddol a chanlyniadau'r boblogaeth a ganlyn:

- Generig
- Gweithio mewn Partneriaeth
- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn Bywyd i Blant
- Creu'r amgylchedd addysgol gorau posibl fel bod modd i'n holl ddinasyddion ddysgu'n effeithiol
- Creu cyfleoedd priodol i geisio cyflogaeth
- Sicrhau bod ein dinasyddion yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol
- Sicrhau bod digon o dai ar gael i'n pobl

3.4 Ni chaiff camau gweithredu unigol y gellir eu cynnwys ar lefel gwasanaeth berthnasol eu cynnwys yma, gan y byddant yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun gwasanaeth, a'u monitro felly.

3.5 At hynny, bydd wyth thema yn y cynllun gweithredu, fydd yn cael eu cynnwys ym mhenawdau'r canlyniadau poblogaeth, a nodir uchod, gan gynorthwyo gwaith cydgysylltiedig ar draws yr Awdurdod Lleol.

- Llywodraethu
- Cyfathrebu
- Hyrwyddo a Datblygu Gweithio mewn Partneriaeth
- Lleihau Tlodi
- Lles / Gwydnwch Cymunedol

- Cynllunio Lle
- Hyrwyddo Cyfleoedd Cyflogaeth / Hyfforddiant / Addysgol
- Diogelu

3.6 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu dull corfforaethol cryfach o ddarparu gwasanaethau i'w ddinasyddion. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ddatblygu perthynas gryfach yn y Cyngor ei hun a chyda phartneriaid, cymunedau a thrigolion, er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio a darparu gwasanaethau i roi sylw i'r anghenion lleol.

3.7 Bydd rhoi'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu ar waith yn llwyddiannus yn seiliedig ar yr enghreifftiau a ganlyn o arfer da, yn lleol:

- Rheoli galw:** atal pobl rhag dod i mewn i'r system statudol neu leihau hyd yr amser y maent yn y system.
- Atal ar bob lefel:** meithrin gwytnwch mewn unigolion ac atal anghenion rhag uno a gweithredu i'w hatal rhag gwaethygu os gwnânt hynny;
- Seiliedig ar Ganlyniadau** - bydd y gweithredu'n canolbwyntio ar ganlyniadau clir a mesuradwy ar draws yr holl wasanaethau atal / ymyrryd yn gynnar, a hynny'n seiliedig ar Fframwaith Canlyniadau Corfforaethol y Cyngor, yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
- Cymorth Cynnar wedi'i Dargedu ac Ymyrraeth Gynnar i'r rhai mwyaf bregus** - mae'r strategaeth yn cynnwys gwaith datblygu sy'n integreiddio cefnogaeth a roddir i blant allu tyfu a datblygu yn eu blynyddoedd cynnar (e.e. Dechrau'n Deg) gydag ymyraethau wedi'u targedu a'u cynllunio i atal pryderon sy'n dod i'r amlwg rhag gwaethygu a gwreiddio (e.e. Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd, Cynhadledd Grŵp Teulu, ymyraethau therapiwtig). Yn yr un modd, gellir defnyddio'r un peth gyda pherson sydd mewn perygl o gael ei droi allan o'i gartref ac, wedi hynny, bod yn ddigartref. Gellir cyflwyno mesurau a chefnogaeth ymyrryd yn gynnar er mwyn rhoi sgiliau cyllidebu, rheoli arian trwy'r Grant Cymorth Tai i sicrhau y gall y tenant osgoi gael ei droi allan a bod yn ddigartref.
- Methodoleg Comisiynu ac Ymchwil** –datblygir y dull ar sail cylch comisiynu'r IPC.



f) **Arfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth** – bydd gwaith datblygu mentrau newydd neu aildargeddu adnoddau'n seiliedig ar dystiolaeth o 'beth sy'n gweithio' a werthuswyd i fod yn gadarn.

g) **Gweithredu fel Partneriaeth** - Bydd ymrwymiad partneriaeth i aildargeddu adnoddau partneriaid sydd ar gael er mwyn lleihau'r galw neu lacio ymyrraeth i'r pwynt isaf sydd raid, yn hanfodol i lwyddiant y Strategaeth. Mae nodweddion allweddol gweithio integredig effeithiol, lle mae gofyn iddynt fod yn eu lle ym mhobman, yn cynnwys bod â gweledigaeth gyffredin, dealltwriaeth glir o anghenion ac adnabod bylchau, canolbwyntio ar wella canlyniadau i holl ddinasyddion Ynys Môn, negeseuon clir a chyson gaiff eu cyfleu i staff a dinasyddion, a strategaeth sy'n sail i ddatblygu gweithlu integredig. Mae angen rhoi amser i fethrin ymddiriedaeth, perthynas gref ac, yn y pen draw, i sicrhau cefnogaeth holl Adrannau'r Cyngor ac asiantaethau allanol. Mae'n hanfodol, hefyd, ein bod yn datblygu dull sy'n seiliedig ar gryfder ac, wrth wneud hynny, yn defnyddio potensial y gymuned nad yw wedi'i ddefnyddio, a'u hasedau, trwy gyd-gynhyrchu.

h) **Datblygiad Effeithiol y Gweithlu** -. Mae'n hanfodol parhau i ddatblygu sgiliau a gallu'r gweithlu er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â'n holl ddinasyddion, o ddarparu gwasanaethau cyffredinol fel ysgolion a seilwaith trafndiaeth, cefnogaeth wedi'i thargedu megis ymyrryd yn gynnar trwy hybiau amlasiantaethol i bobl ifanc anfodlon a bregus, trwodd i ymyrraeth statudol megis asesiadau cartrefi gofal.

## 4.0 Datblygiad Cynaliadwy – Darpariaeth y Dyfodol

4.1 Rhydd **Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** y fframwaith sy'n ofynnol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus fel Awdurdodau Lleol yn arwain ar sicrhau y byddir yn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.


4.2 Wrth wneud penderfyniadau, mae angen i gyrff cyhoeddus megis Cyngor Sir Ynys Môn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i sut y bydd yn cael effaith yn y dyfodol ar bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod yn gynaliadwy gyda holl ddarpariaethau'r dyfodol. Er mwyn sicrhau y cyflawnir hyn, bydd angen i ni ystyried y canlynol yn barhaus.

- **Y tymor hir** - Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r anghenion i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd
- **Atal** - Sut i atal problemau yn y lle cyntaf
- **Sut i weithio gydag eraill** - Integreiddio a chydweithio
- **Sut i gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r Cyngor a chyrrff cyhoeddus eraill yn ei gwasanaethu** – Dwyn i mewn

4.3 Felly, ystyrir atal ac ymyrryd yn gynnar yn feysydd blaenoriaeth allweddol wrth sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cyflawni pob un o'r saith nod a nodir yn y Ddeddf. Y rhain yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

# Model Darpariaeth Y Dyfodol





# Atodiadau

## Atodiad 1 Strategaeth Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar



Strategaeth Ataliol  
Corfforaethol - Iona

## Atodiad 2 Cynllun Gweithredu Gwasanaethau Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar



Atodiad 2 Cynllun  
Gweithredu 2020-21

## Atodiad 3 Tabl o Wasanaethau Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar – manylion ariannol a'r nodau ac amcanion



Tabl Grantiau  
Ataliol Ymyrraeth Gy

## Atodiad 4 Deilliannau a Nodau – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Appendix 4  
Outcomes and Goal



**B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

- Nid yw gwneud dim yn opsiwn.
- Ymestyn Aelodaeth y Bwrdd i gynnwys asiantaethau allanol megis Iechyd, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân, Coleg Menai, yr Adran Gwaith a Phensiynau. Ar yr adeg benodol hon, ystyrir bod hyn yn gynamserol, hyd nes y bydd trefniadau llywodraethu clir wedi'u sefydlu ac y byddir wedi edrych ymhellach ar weithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth.

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae goblygiadau ar draws y Cyngor i weithredu Strategaeth Atal ac Ymyrryd yn Gynnar, ac mae hyn yn hanfodol os ydym am gyflawni ein tri nod corfforaethol:

- Creu'r amodau i bawb gyflawni eu potensial tymor hir
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, gan warchod ein hamgylchedd cenedlaethol yr un pryd

Mae'n hanfodol, hefyd, ein bod yn gweithredu ar draws y cyngor ac yn sicrhau cyfranogiad a pherchnogaeth gorfforaethol lawn os ydym am weithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus, gyda'r holl wasanaethau'n cyfrannu'n ariannol ac yn darparu gwasanaeth, fel yr amlinellir yn y cynllun gweithredu arfaethedig.

**D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydyw

**DD – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydyw

**E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)**

1	<b>Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys</b>	Dylai defnyddio Strategaeth Gorfforaethol effeithiol ar Atal / Ymyrryd yn Gynnar liniaru anawsterau a dibyniaeth ar wasanaethau statudol.
2	<b>A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-</b>	Ydyw. Bydd gweithredu'n llwyddiannus Strategaeth Gorfforaethol ar Atal / Ymyrryd yn Gynnar yn gostwng nifer y bobl a'r costau cyffredinol i wasanaethau statudol ac, felly, yn gwneud gwasanaethau'n fwy ariannol gynaliadwy
3	<b>A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-</b>	Ydym - Mae eisoes dystiolaeth glir o gydweithio â sefydliadau statudol megis Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Tân ac ati, yn ogystal â chysylltiadau sydd wedi hen ennill eu plwyf â nifer o Sefydliadau Trydydd Sector.
4	<b>A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-</b>	Ymgynghorir â dinasyddion yn rheolaidd ar nifer eang o wasanaethau ataliol / ymyrryd yn gynnar, yn barhaus.
5	<b>Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg</b>	Mae pob dinesydd, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth presennol a darpar ddefnyddwyr, yn cael eu trin yn gyfartal o ran cael at gefnogaeth a'i derbyn. Mae'r holl wasanaethau'n gallu rhoi gwasanaeth dwyieithog.

<b>E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?</b>		<b>Beth oedd eu sylwadau?</b>
1	<b>Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)</b>	Cymeradwywyd gan yr Uwch-dîm Rheoli 21.9.2020
2	<b>Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)</b>	Yn bresennol yn yr Uwch-dîm Rheoli uchod
3	<b>Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)</b>	Yn bresennol yn yr Uwch-dîm Rheoli uchod
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	Ni chafwyd sylwadau
5	<b>Eiddo</b>	Ni chafwyd sylwadau
6	<b>Technoleg Gwybodaeth (TG)</b>	Dim yn berthnasol ar hyn o bryd
7	<b>Caffael</b>	Dim yn berthnasol ar hyn o bryd
8	<b>Sgriwtini</b>	Disgwyliwr cyflwyniad 20.10.2020
9	<b>Aelodau Lleol</b>	Dim yn berthnasol

<b>F - Atodiadau:</b>
<b>Atodiad 1 Strategaeth Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar</b>

**Atodiad 2 Cynllun Gweithredu Gwasanaethau Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar**

**Atodiad 3 Tabl o Wasanaethau Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar – manylion ariannol a'r nodau ac amcanion**

**Atodiad 4 Deilliannau a Nodau – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

**FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

**Dim**